

# Talu'r pris niwclear – sybsidiau 'rhwng £800m ac £1b'

**Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dangos mai pell iawn o fod yn opsiwn rhad fyddai trydan o atomfeydd newydd, a hynny heb son am gost dadgomisiynu ...**

MAE ynni ac, yn anuniongyrchol, newid hinsawdd, wedi neidio i ben yr agenda wleidyddol. Codiadau serth yn ein biliau nwy a trydan ydi'r prif sbardun.

Bellach mae David Cameron, a addawodd “y Llywodraeth wyrddaf erioed”, am ddiddymu'r elfen yn ein biliau ynni sy'n hybu ynni cynaliadwy ac yn helpu i ddiddosi ein tai.

Yn Grangemouth yn yr Alban wedyn, gorfodwyd yr Undebau a'r gweithlu i blygu glin i'r rheolwyr, Ineos, a derbyn telerau gwaith sylweddol waeth i gadw'r burfa olew a'r gwaith petrogemegol ar agor. Hyn yn rhannol am fod olew crai o Fôr y Gogledd a'r galw am betrol i'n ceir yn lleihau. Newyddion da o safbwynt newid hinsawdd, ond trychineb i economi a thrigolion yr ardal.

Yn fwy trawiadol byth, cafwyd cytundeb rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chwmni cenedlaethol Ffrainc - EDF – a'i gefnogwyr arianol o China i godi atomfa newydd yn Hickley Point.

Atomfa gyda gallu i gynhyrchu 3.2 GW fydd hon, gyda'r gallu i gynhyrchu hyd at 28TWawr o drydan y flwyddyn. O gyrraedd lefel cynhyrchu arferol yn Wylfa (60%) byddai hyn yn golygu tuag 17 TWawr y flwyddyn, ond dw i'n sicr bod EDF yn gobeithio am lefel uwch. Y bwriad ydi agor y safle ymhenn degawd.

## **EDF HEB YMDYNGHEDU ETO I FWRW YMLAEN**

Y gost a'r telerau sy'n syfrdanol! Buddsoddiad o £16 biliwn yn ennill pris gwarantedig o £92.5 y MWawr - pris sydd tua dwywaith pris cyfanwerth trydan rŵan ac yn codi efo chwyddiant.

Felly, y disgwyl ydi incwm o ddeutu £2 biliwn y flwyddyn – cyfanswm o fwy na £100 biliwn erbyn canol y ganrif o ystyried chwyddiant. Mae rhai arbenigwyr yn honni bod y cytundeb, sy'n aros am sêl bendith yr Undeb Ewropeaidd, yn gyfystyr â sybsidi o rhwng £800 miliwn a £1biliwn yn flwyddyn i'r cwmnïau o Ffrainc a China.

Mae'r cytundeb dros 35 mlynedd o 2023, a ni'r cwsmeriaid fydd yn talu. Dydi EDF, ddim wedi ymdynghedu eto i fwrw ymlaen - tan i ffactorau eraill gael eu datrys.

Does dim sôn, naill ai yn y wasg neu yn natganiadau'r Llywodraeth, am gost dadgomisiynu. Dydi hynny ddim yn rhan o'r cytundeb. Bydd y cyfrifoldeb a'r gost yna ar y trethdalwr a'r cwsmer.

Anodd ydi cael ffigyrau dibynadwy ond mae sôn bod glanhau gwaith Sellafield yng Nghumbria am gostio bron i £50 biliwn, a bod y gost lawn ar gyfer yr holl atomfeydd presennol rhwng £60 a £100 biliwn. Bydd Hinckley Point C yn ychwanegiad!

Beth bynnag ydi'r farn am drydan niwclear, dydi o ddim yn opsiwn rhad. Mae'n debygol bod Llundain, ar ein rhan, wedi sicrhau codiad mawr yn mhris trydan, ein clymu i dechnoleg fydd yn hen ffasiwn ymhell cyn 2050 a gyda risg sylweddol yn agos at Gaerdydd.

Pam mae Llundain mor barod i lofnodi'r fath gytundeb; sy'n ennyn llid y **Daily Telegraph** yn ogystal â'r **Guardian**?

## **CWMNIAU BRODOROL DDIM AM FUDDSODDI**

Maen nhw'n poeni am godiadau cyson ym mhris rhyngwladol nwy ac ansicrwydd y cyflenwadau. Dydi olew a glo ddim yn ddeniadol mewn gwlad sydd wedi addo gostwng lefelau nwyon tŷ gwydr 80% erbyn 2050. Mae'r hen atomfeydd a gorsafodd glo yn dod i ddiwedd eu hoes, ac mae cyflenwadau trydan yr ynysoedd mewn peryg.

Mae trydan niwclear yn 'garbon isel', os nad yn wir adnewyddadwy. I gymhlethu pethau, mae diwydiant niwclear Prydain wedi crebachu a d'yw cwmnïau brodorol ddim yn fodlon buddsoddi, er y telerau hael – sy'n dweud cantoedd am y risgiau!

Sôn yr ydan ni am tua 7% o'r galw am drydan yn unig, a thrydan yn gyfrifol am ddim ond cwta 20% o'n hallyrion nwyon tŷ gwydr. Felly, cam bach at ddadgarbonieddio am bris mawr!

Oes yna ffordd well? Oes – mae tystiolaeth gryf y byddai'n gymharol hawdd safio llawer mwy na 7% o'n trydan (hyd at chwarter?) ac mae technolegau amgen yn cael eu datbygu'n gyson.

Byw yn well ar lai, nid defnyddio mwy a mwy, yw'r gwir nod! Mae Llywodraeth Prydain mor gaeth i'r drefn â gweithlu Grangemouth!

**Hydref 31, 2013**